

**Coedwigoedd yn troi yn anialwch yn Mali**



**? Mae'r tir y mae Armand yn ei ddisgrifio yn awr yn anialwch. Sut fyddai hynny yn newid bywydau'r bobl sy'n byw yno?**



Mae Armand wedi gweld yr hinsawdd yn newid yn Mali, gorllewin Affrica: 'Yn ystod cyfnod y glawogydd roedd yma goedwig drwchus. Roedd llyn lle byddai anifeiliaid yn dod i yfed. Nawr mae'r llyn wedi diflannu.'



**Ynni solar**  
Mewn gwledydd lle mae llawer o heulwen, gellir ei ddefnyddio i greu trydan am ddim! Mae Cymorth Cristnogol wedi rhoi paneli solar i ysgolion a chlinigau yn Mali. Yn awr, mae gan yr ysgol hon drydan ar gyfer ynni a golau.

**cymorth cristnogol** Hinsawdd newydd. Torrwn y carbon.

**'Rhaid i fi gadw'r adar allan o'r caeau reis'**



Wyth oed gw Ysus sy'n byw yn Mali. Bob dydd, mae'n gweithio yn y caeau yn chwifio rhaff i gadw'r adar i ffwrdd o gnwd reis ei dad. Arferai ei dad fod yn bysgotwr, ond dechreuodd yr atonydd sychu gan nad oedd digon o law. Rhoddodd Cymorth Cristnogol ychydig o dir i deulu Ysus er mwyn tyfu reis.

**Plannu coed yn Senegal**  
Roedd yna goedwig a bywyd gwyllt yn arfer bod yng ngogledd Senegal, gorllewin Affrica. Ond ers llawer o flynyddoedd bellach ychydig iawn o law sydd wedi bod ac y mae pobl wedi torri llawer o'r coed ar gyfer coed tân. Mae'r ardal yn awr yn sych a thywodlyd. Mae Cymorth Cristnogol yn cynnal dosbarthiadau i ddysgu pobl sut i blannu a gofalu am goed a gwella'r tir.



# HINSAWDD EUDRIT



**Beth sy'n digwydd i'n tywydd ni?**  
Mae cynhesu byd-eang yn golygu bod ein planed yn twymo. Pan na fydd hi'n bwrw glaw am amser hir, fe gawn sychdwr, bydd cynydau yn methu ac ni fydd digon o fwyd i'w fwyta na dŵr i'w yfed gan bobl ac anifeiliaid. Gall tymheredd uwch hefyd greu llifogydd a stormydd: mae glaw trwm yn golchi'r tir i ffwrdd, caiff cynydau eu difetha a bydd pobl yn gorfod gadael eu cartrefi. Mae elusen o'r enw Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda phobl dlotaf y byd i'w helpu i ddelio â newid hinsawdd.

**? Pa dywydd anarferol ydych chi wedi gweld? Gofynnwch i bobl hŷn i sôn am y newidiadau y maen nhw wedi eu gweld.**



**Tywydd ansicr**  
Mae yna lifogydd yn aml yn Bangladesh, ond yr oedd glawogydd 2004 a 2007 yn drymach nag y buont ers 15 mlynedd. Mae gwyddonwyr yn credu y bydd newid hinsawdd yn gwneud y llifogydd yn Bangladesh, y corwyntoedd yn Nicaragua a'r teiffwnau yn ne-ddwyrain Asia yn gryfach a mwy anodd i'w rhagweld.

Mae'r pentrefwyr hyn yn cerdded trwy dŵr llifogydd i chwilio am ddŵr glân. Buont yn byw am fis ar do eu tŷ gan fod y dŵr llif yn eu tŷ.



**'Cafodd rhai o'n cymdoggion eu golchi i ffwrdd!'**



Mae Gile sy'n ddeg oed, yn byw yn Bangladesh, de-ddwyrain Asia. Bu raid i'w theulu cyfan fyw ar ben gwely am ddaud fis pan amgylchynwyd eu tŷ gan lifogydd. Mae Gile yn awr yn mynd i ysgol sy'n cael ei helpu gan Cymorth Cristnogol ac yno cafordd ei dysgu sut i baratoi ar gyfer argyfyngau.

**? Petai rhaid i chi adael eich tŷ ar frys mewn argyfwng fel llifogydd, beth fydddech chi'n mynd gyda chi?**

**Cadw'r dŵr llif yn ôl**  
Yn ystod llifogydd bydd dŵr yn niweidio cartrefi a golchi tir i ffwrdd. Yn Bangladesh ac El Salvador, bydd pobl yn defnyddio sachau tywod a theiers i wneud argaeau i atal y tir rhag cael ei orchuddio â dŵr. Yn y Philipinas, mae Cymorth Cristnogol wedi helpu pobl i blannu coed mangroff i gadw'r tir yn ddiogel rhag stormydd a llifogydd. Mae'r coed yn dda i atal strem y gwynt - bydd y gwynt yn gwanhau wrth symud trwy'r canghennau.



**'Dwi'n helpu i lanw'r sachau tywod i gryfhau glan yr afon.'**



Mae Chus yn 17 oed ac yn byw yn El Salvador yng Nghanolbarth America lle mae yna lawer o gorwyntoedd a llifogydd. Mae e'n helpu grŵp lleol i wneud ceulannau'r afon yn gryfach gyda sachau tywod.

## Torrwn y carbon

Mae maint y carbon diocsid (CO<sub>2</sub>) y byddwch chi yn ei roi i mewn i'r awyr yn cael ei alw yn **ôl troed carbon**. Ar gyfartaledd, mae pob person yn y DG yn gollwng 9.4 tunnell o CO<sub>2</sub> bob blwyddyn ac yn lwerddon mae'n 10.3 tunnell. Mae ynnyn a llawer, ond yw e? Ond ar gyfartaledd, bydd rhywun o Mali ond yn gollwng 0.1 tunnell!\*

**Felly, pam fod ein hôl troed carbon ni mor fawr?** Wel, mae gweithgareddau pob dydd - gwylio'r teledu, gyrru i'r ysgol, cynhesu ein tai - yn gollwng CO<sub>2</sub>. Mae angen i ni leihau ein hôl troed carbon er mwyn ceisio atal y llifogydd a'r sychdwr rhag mynd yn waeth yn y dyfodol.

**Ewch ati!** Nodwch bum peth y gall eich dosbarth chi ei wneud i leihau eich ôl troed carbon:


**Ewch i [www.globalgang.org](http://www.globalgang.org) i ymuno â'n haddewid ar-lein a rhoi eich ysgol ar y map!**

(\*Ffynhonnell: UNDP Human Development Report 2006) P1449W